

Ymgynghoriad Cyhoeddus

Defnydd o Deledu Cylch Cyfyng a wisgir ar y corff gan Swyddogion Amgylcheddol / Cynllunio / Iechyd Anifeiliaid / Safonau Masnach / Trwyddedu a Gorfodi Sifil.

Cefndir

Pam y mae camerau yn cael eu defnyddio?

Pwrpas defnyddio camerau a wisgir ar y corff (BWC) yw:-

- Atal ymddygiad ymosodol, cam-drin geiriol a chorfforol
- Cyflwyno systemau recordio mwy effeithiol er mwyn mynd i'r afael â'r lefelau uchel o ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Cadw pobl yn ddiogel
- Helpu i amddiffyn swyddogion yn y gwaith (at ddibenion Iechyd a Diogelwch)
- Tynnu lluniau agos, gan gynnwys recordiadau sain
- Galluogi'r swyddog i barhau i ddefnyddio ei d(d)wylo ac offer gorfodi wrth recordio'r digwyddiad
- Darparu tystiolaeth i gefnogi ymchwiliadau mewnol (cwynion), rhoi hysbysiadau cosb benodedig neu achosion o erlyn
- Bod o gymorth i ymchwilio i honiadau o ymddygiad amhriodol gan swyddogion.

Pwy fydd yn defnyddio'r camerau?

Bydd y dechnoleg yn cael ei defnyddio gan Dîm Gorfodi'r Cyngor gan gynnwys Swyddogion Gorfodi Materion Amgylcheddol sy'n mynd i'r afael ag ystod o broblemau gan gynnwys ceir sydd wedi eu gadael, cŵn yn baeddu, gosod posterï'n anghyfreithlon/graffiti, tipio anghyfreithlon, sbwriel ac unrhyw droseddau eraill yn ymwneud â gwastraff. Bydd yn cael ei defnyddio gan Dîm Gorfodi Sifil y Cyngor sy'n ymdrin â gorfodi rheolau parcio, Swyddogion Safonau Masnach a thrwyddedu a gan y Tîm Gorfodi Rheolau Cynllunio a fydd yn ymdrin â throseddau cynllunio.

Mae Swyddogion Gorfodi Materion Amgylcheddol, Cynllunio, Iechyd Anifeiliaid, Safonau Masnach, Trwyddedu a Gorfodi Sifil wedi derbyn hyfforddiant ar sut i ddefnyddio camerau a wisgir ar y corff gan gynnwys:-

- Defnydd ymarferol o'r offer.

- Canllawiau ynghylch defnyddio offer o'r fath ar y stryd e.e. pryd i ddechrau recordio a phryd i orffen recordio.
- Goblygiadau cyfreithiol o ran defnyddio offer o'r fath.

Ar hyn o bryd, ni ddefnyddir y camerâu gan Swyddogion Gorfodi o adrannau eraill y Cyngor (e.e. Iechyd yr Amgylchedd / Gwasanaethau Cymdogaeth).

Pryd y byddant ar waith?

Ni fydd y camerâu yn cael eu cuddio. Cyn recordio, bydd y swyddogion yn rhoi cyfarwyddyd clir bod recordio ar fin digwydd (oni bai bod y sefyllfa'n un frys).

Bydd Swyddogion Gorfodi Materion Amgylcheddol, Cynllunio, Iechyd Anifeiliaid, Safonau Masnach, Trwyddedu a Gorfodi Sifil yn rhoi'r camerâu ar waith pan fyddant:-

- Yn dod i gysylltiad ag aelod o'r cyhoedd, sydd ym marn y swyddog yn fygythiol a lle maent yn credu y gallent gael eu cam-drin yn gorfforol neu'n eiriol.
- Yn dod ar draws sefyllfa lle mae aelod o'r cyhoedd yn cysylltu â nhw mewn modd a ystyrir yn ymosodol neu'n fygythiol.
- Yn gweld trosedd yn digwydd (ac eithrio tramgwyddau parcio)

Mesurau posibl i leihau effaith ar Breifatrwydd

Mae'r Cyngor eisoes wedi dechrau ystyried mesurau i leihau unrhyw effaith ar unigolion a'u preifatrwydd. Manylir ar y rhain isod. Dylid pwysleisio mai bwriad cyflwyno'r mesurau hyn yn yr ymgynghoriad hwn yw cynorthwyo a hysbysu'r cyhoedd fel rhan o'r ymarfer ymgynghori - bydd y penderfyniad ynghylch y mesur ond yn cael ei roi ar waith pan fydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad wedi eu hystyried a'r Aseidiad o'r Effaith ar Breifatrwydd wedi'i gwblhau.

Mae mesurau posibl yn cynnwys

- Amgryptio pob recordiad fel na ellir cael mynediad heb awdurdod at unrhyw ddata a gofnodir.
- Diogelu'r holl recordiadau yn unol â gweithdrefnau diogelu data y cytunwyd arnynt. Caiff y recordiadau eu dileu wedi 30 diwrnod oni bai bod angen eu cadw fel rhan o ymchwiliad mewnol neu ymchwiliad gan yr heddlu.
- Bydd mynediad i recordiadau yn cael ei gyfyngu i bersonél awdurdodedig
- Bydd yr awdurdod yn cyhoeddi canllawiau llym a chllir ynghylch pwy sy'n cael gweld y recordiadau a sut mae'n rhaid gwneud cais i'w gweld.

Ymgynghoriad Cyhoeddus:

Mae swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) wedi cyhoeddi "Côd Ymarfer Diogelu Data ar gyfer Camerâu Gwyliadwriaeth a Gwybodaeth Bersonol", ac mae'r Swyddfa Gartref wedi cyhoeddi "Côd Ymarfer Camerâu Gwyliadwriaeth". Mae'r ddau Gôd hyn yn argymhell bod Datganiad o'r Effaith ar Breifatrwydd yn cael ei wneud er mwyn sicrhau bod y defnydd a wneir o'r camerâu yn ystyried yr effaith ar unigolion a'u preifatrwydd.

Mae'r cyngor felly'n cynnal ymarfer ymgynghori ffurfiol i ofyn am farn pobl ynglŷn â'r defnydd o Camerâu a Wisgir ar y Corff gan ein swyddogion gorfodi, fel bod modd ystyried hyn wrth baratoi ein Datganiad o'r Effaith ar Breifatrwydd.

Mae'r ymgynghoriad bellach ar agor tan ddydd Gwener 11 Hydref 2019